

Adroddiad Blynyddol



Cyngor Bwrdeistref Sirol

Blaenau Gwent

County Borough Council

CYFARWYDDWR

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL



10/01/2018 | 1

Blaenau Gwent – a place that is fair, open and welcoming to all by working with and for our communities

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Crynodeb Perfformiad gan y Cyfarwyddwr	4
Sut mae Pobl yn Ffurio ein Gwasanaethau	6
Hyrwyddo a Gwella Llesiant y Rhai Rydyn ni'n eu Helpu	8
• Safon Ansawdd 1	9
• Safon Ansawdd 2	11
• Safon Ansawdd 3	14
• Safon Ansawdd 4	17
• Safon Ansawdd 5	19
• Safon Ansawdd 6	21
Sut Ydym Ni'n Gwneud Yr Hyn a Wnawn	
• Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi Eu Rolau Proffesiynol	24
• Arweinyddiaeth Wleidyddol Leol, Llywodraethu ac Atebolrwydd	25
• Archwilio ac Arolygu	25
• Gweithio mewn Partneriaeth	26
• 'Mwy na Geiriau'	27
• Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol	27
Casgliad	29
Cyrchu Gwybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol	30
• Dogfennau Defnyddiol	
• Gwefannau Defnyddiol	
• Darparu Adborth	

Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2022/2023. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r Adran wedi bod yn datblygu'r adroddiad blynyddol hwn i amlygu'r meysydd allweddol gwelliannau a heriau a wynebwyd.

Datblygwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y cyfeirir ati fel 'y Ddeddf' drwy'r ddogfen hon. Nod y Ddeddf yw darparu'r newid mwyaf radical i'r ffordd y darperir Gwasanaethau Cymdeithasol ers 1948. Mae'n canolbwyntio ar wella lles pobl sy'n dod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am gymorth. Mae'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn canolbwyntio ar atal a lleihau'r angen am ofal a chymorth. Mae'n cydnabod bod cyfrifoldeb yn gorwedd nid yn unig o fewn Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, ond hefyd o fewn yr Awdurdod Lleol ehangach a chyda phartneriaid (yn enwedig Iechyd a'r Trydydd Sector).

Mae'r Ddeddf yn rhannu egwyddorion tebyg â nifer o strategaethau cenedlaethol/rhanbarthol allweddol sy'n cael eu gweithredu ledled y Cyngor, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gofyniad statudol ar y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i gyhoeddi adroddiad blynyddol mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau, i werthuso ei berfformiad a hefyd i gynnwys gwersi a ddysgwyd. Agwedd allweddol ar yr adroddiad yw dangos sut mae'r chwe Safon Ansawdd wedi'u gweithredu mewn perthynas â chanlyniadau llesiant.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg strategol o'r gwaith a wnaed drwy gydol 2022/2023 a pha gynlluniau sydd ar waith i symud ymlaen. Ceir rhagor o wybodaeth ategol ar dudalen 30 yr adroddiad.

Mae'r adroddiad yn cynnwys tystiolaeth o ble mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio ar y cyd â phartneriaid.

Mae profiadau a gwersi a ddysgwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau wedi'u hystyried fel rhan o ddatblygiad yr adroddiad. Mae canfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), canfyddiadau Archwilio Cymru (AC), astudiaethau achos, cwynion a chanmoliaeth ac adroddiadau chwarterol i gyd wedi'u hystyried fel rhan o ddatblygiad yr adroddiad hwn a defnyddiwyd tystiolaeth o'r rhain i lywio dysgu yn y dyfodol.

Defnyddir yr adroddiad blynyddol i ddangos atebolrwydd i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau. Fel rhan o'r broses hon, bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w gadarnhau cyn iddo gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yna caiff ei anfon at Weinidogion Cymru. Bydd yr adroddiad ar gael ar-lein yn ddwyieithog a chaiff ei rannu gydag asiantaethau partner er mwyn rhannu arfer da, dysgu a phrofiadau.

Crynodeb Perfformiad gan y Cyfarwyddwr

Yn 22/23 gwelwyd llawer o newid i'r Cyngor a'r Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gan y cyngor weinyddiaeth wleidyddol newydd sydd yn ei dro wedi arwain at newid yn yr aelod gweithredol dros wasanaethau cymdeithasol. Y Cyngorydd Trollope bellach yw ein Haelod Gweithredol, gan ddod â gwybodaeth gadarn am yr agenda Gwasanaethau Cymdeithasol gydag ef, ar ôl dal y swydd hon yn flaenorol, ac mae wedi bod yn aelod o bwyllgor craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ers blynyddoedd lawer. Rydym wedi gweld newid yn y ffordd y mae pwyllgorau craffu wedi'u cynllunio. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol bellach yn adrodd i'r pwyllgor craffu POBL y mae ein Cyfarwyddiaeth Addysg hefyd yn adrodd iddo.

Mae Cynllun Corfforaethol newydd wedi'i ddatblygu i fynd â ni i 2027. Mae gan y cynllun y 4 blaenoriaeth ganlynol y bydd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio tuag atynt.

- Cynyddu dysgu a sgiliau i'r eithaf ar gyfer pawb i greu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chydnerth
- Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig
- Cyngor uchelgeisiol a blaengar yn darparu gwasanaethau ansawdd da ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir
- Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a chydnerth

Mae'r newid hefyd wedi ymestyn i uwch arweinyddiaeth y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda Tanya Evans yn ymgymryd â rôl y Cyfarwyddwr Dros Dro ac Alison Ramshaw yn camu i fyny fel Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant. Mae'r trefniadau interim hyn wedi parhau yn eu lle drwy gydol 22/23.

Fel Cyfarwyddiaeth rydym wedi adolygu ein blaenoriaethau ochr yn ochr â'r blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion. Nid yw'n syndod gweld bod gan wasanaethau plant ac oedolion flaenoriaethau tebyg iawn mewn perthynas â diogelu, y gweithlu, yr agenda ataliol, a chynaliadwyedd gwasanaethau.

Mae pwysau cyllidebol wedi bod yn ffactor arwyddocaol yn ystod y flwyddyn hon oherwydd y cynnydd yn y galw a chymhlethdod angen yr ydym wedi bod yn delio ag ef. Wedi dweud hynny roedd yr alldro ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol yn well na'r disgwyl, boed yn sefyllfa gorwariant o hyd. Mae'r gyfarwyddiaeth hon yn ddibynnol iawn ar grantiau gan Lywodraeth Cymru i ddarparu ei gwasanaethau craidd. Os daw'r grantiau hyn i ben yn y blynyddoedd i ddod, bydd yn cael effaith negyddol ar ein gallu i ddarparu ein cyfrifoldebau statudol.

Mae gan y Gyfarwyddiaeth strategaeth gweithlu glir ar waith, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar recriwtio i swyddi gweigion anodd eu llenwi mewn gwasanaethau darparwyr a'n timau gwaith cymdeithasol plant rheng flaen. Mae wedi arwain at ostyngiad mewn cyfraddau salwch mewn gwasanaethau darparwyr a oedd wedi bod yn fan problemus ers peth amser. Mae'r gweithlu wedi bod yn gweithio mor galed ag erioed eleni i ddiwallu'r anghenion a darparu gwasanaeth o safon i bobl Blaenau Gwent. Mae gennym lawer i fod yn falch ohono mewn perthynas â'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae rhai o'r llwyddiannau yn cynnwys:

- Cwrt Mytton, ein cartref preswyl i bobl â dementia wedi gallu ailagor i ymwelwyr yn dilyn y pandemig ac wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol llwyddiannus sydd wedi cael eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol.
- Llwyddiant gyda recriwtio staff i feysydd rydym wedi bod yn cael trafferth recriwtio iddynt ers peth amser.
- Aeth strwythur IAA newydd y gwasanaethau oedolion yn fyw ar 22 Ebrill ac nid yw bellach yn dibynnu ar arian grant.
- Mae'r Tîm Comisiynu wedi parhau i gefnogi'r sector allanol drwy basbortio'r grantiau niferus a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i'w cefnogi i barhau i ddarparu gwasanaethau.
- Rydym wedi agor ein fflat SMART newydd ac yn datblygu'r defnydd o dechnoleg i gefnogi pobl ym Mlaenau Gwent i aros yn annibynnol a byw gartref cyhyd â phosibl.
- Mae'r nifer sy'n cael Prydau Cymunedol yn cynyddu gan gynnwys ein 'hambyrddau amser te'.
- Rydym wedi cynnal dull gweithredu cryf sy'n seiliedig ar ganlyniadau o ran y ffordd yr ydym yn darparu arfer gan sicrhau ein bod yn clywed am "Yr Hyn sy'n Bwysig" i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu gan gydbwysu eu hawliau a'u cyfrifoldebau.
- Mae darpariaeth seibiant Tŷ Augusta wedi'i hymestyn i gynnwys Plant.
- Enillodd y Tîm 14 + glod gofal cymdeithasol am adeiladu dyfodol mwy disglair i blant a theuluoedd.
- Mae'r asesiadau gofal plant a digonolrwydd chwarae wedi'u cwblhau'n llwyddiannus gyda chynllun gweithredu 5 mlynedd yn ei le.
- Rydym wedi gweld lansio ein Fy Nhîm Cymorth (MyST) BG ein hunain sy'n gweithio'n ddwys gyda phlant ag anghenion cymhleth i'w hatal rhag mynd i ofal preswyl a gweithio gyda'r rhai mewn gofal preswyl i'w cefnogi i ddychwelyd i ofal maeth neu eu teuluoedd.
- Cafodd y Gwasanaethau Troseddau leuenctid ar y cyd sydd gennym â Chaerffili arolygiad cadarnhaol.
- Mae niferoedd ein Plant sy'n Derbyn Gofal yn parhau i fod yn sefydlog.
- Rydym wedi llwyddo i leoli ein holl blant sy'n ceisio lloches o dan y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol.
- Agor PODS ailalluogi Tŷ Augusta a fydd yn rhoi cyfle i bobl ag anawsterau dysgu ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth mewn amgylchedd â chymorth pwrpasol.
- Prynu cerbydau trydan ar gyfer Prydau Cymunedol a gofal cartref i gefnogi'r agenda argyfwng hinsawdd.
- Gweithredu'r model gweithredu newydd ar gyfer y timau ardal plant i reoli'r llwyth gwaith a'r galw am wasanaethau.
- Defnyddio'r gronfa gyfalaf Integredig Ranbarthol yn llwyddiannus i brynu ein cartref preswyl cyntaf ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Mae ein grŵp Gofalwyr Ifanc Teuluoedd yn Gyntaf wedi cyrraedd y rownd derfynol yng ngwobrau Acolâd Gofal Cymdeithasol eleni.



Tanya Evans

**Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro
Gwasanaethau Cymdeithasol
2022/23**



**Y Cyngorydd Haydn Trollope
Aelod Cabinet dros Bobl a
Gwasanaethau Cymdeithasol**

Sut mae Pobl yn Ffurio ein Gwasanaethau

Ymgysylltu

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'w dinasyddion ac yn defnyddio amrywiol fethodolegau ymgysylltu er mwyn deall a yw'r gwasanaeth yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd neu a oes angen ystyried diwygiadau i'r modd y darperir gwasanaethau. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod llais pobl yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella'r gwasanaeth wrth symud ymlaen.

Mae'r staff yn sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed a bod pobl yn gwrando arnynt trwy gael y sgwrs 'Yr hyn sy'n bwysig' i sefydlu'r canlyniadau personol y mae pob unigolyn am eu cyflawni a'r rhwydweithiau cymorth y gallai fod ganddynt eisoes yn eu lle i ddibynnu arnynt i gyflawni'r canlyniadau hynny.

Drwy gydol mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023 mae amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu wedi'u cynnal gan gynnwys y canlynol:

- **Gweithgareddau Haf o Hwyl**
 - **Diwrnod Chwarae Cenedlaethol**
 - **Wythnos Iechyd Dynion**
 - **Wythnos Diogelwch Plant**
 - **Digwyddiadau Jiwibili Platinwm yr Haf yng Nghartref Gofal Preswyl Cwrt Mytton**
 - **Ymgynghoriad rhanddeiliaid rhanbarthol Gwent**
- **Diwrnod Cenedlaethol y Plant - hyrwyddo pwysigrwydd plentyndod iach a hawliau'r plentyn**
 - **Mis Cenedlaethol Gwenu**
 - **Mae ymwneud ag unigolion, plant a theuluoedd yn digwydd yn ddyddiol ac yn cael ei gofnodi fel rhan o gynllunio gofal**
 - **Sesiynau oedolion a gofawyr ifanc di-dâl**

Cwynion a Chanmoliaeth

Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'w defnyddwyr; fodd bynnag, er gwaethaf y bwriadau gorau, cydnabyddir y gall pethau fynd o chwith weithiau ac mae trefn gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi'r cyfle i bobl leisio eu pryderon pan fyddant yn anfodlon â gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio'r hyn a ddysgir o'r cwynion hyn i wella gwasanaethau wrth symud ymlaen. Mae'r gwasanaeth hefyd yn croesawu adborth cadarnhaol a chanmoliaeth ac mae hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella gwasanaethau ymhellach.

O 1 Ebrill 2022 i 30 Ebrill 2023 yn y gwasanaethau plant roedd 5 cwyn cam 1 a 6 cwyn cam 2 (mae 1 gŵyn cam 2 yn cael ei hymchwilio ar hyn o bryd).

Mae rhai enghreifftiau o'r cwynion a dderbyniwyd i'w gweld isod:

- Diffyg cyfathrebu rhwng gwasanaethau cymdeithasol a lleoliadau gofal plant
- Ansawdd wrth gofnodi gwybodaeth
- Peidio â rhannu gwybodaeth â rhieni ynghylch pryderon diogelu a chmau a gymerwyd rhwng lleoliadau gofal
- Anhapus gydag ymddygiad a chyfathrebu aelod o staff

- Gwybodaeth wedi'i hepgor o gofnodion cyfarfod gweithwyr proffesiynol

Dyma rai enghreifftiau o ddysgu a nodwyd ac a weithredwyd o fewn gwasanaethau Plant drwy gydol y cyfnod:

- Prosesau i'w hadolygu ac atgoffa staff trwy sesiynau goruchwylio a hyfforddi o bwysigrwydd cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol
- Staff i dderbyn hyfforddiant gloywi yn canolbwyntio ar gofnodi gwybodaeth ffeithiol gywir yn yr iaith briodol ac nad yw'n oddrychol
- Staff i dderbyn hyfforddiant ar sut i gael 'sgyrsiau anghyfforddus' er mwyn bod yn onest ac agored gyda rhieni wrth gadw arsylwadau ar gais y gwasanaethau cymdeithasol
- Trafodaethau i ddigwydd mewn sesiwn oruchwylio un i un mewn perthynas â sgiliau cyflwyno a chyfathrebu proffesiynol
- Diwygio'r cofnodion i adlewyrchu deialog lawn y cyfarfod a sesiynau hyfforddi a datblygu i'w trefnu ar gyfer staff

O 1 Ebrill 2022 i 30 Ebrill 2023 yn y gwasanaethau oedolion, cafwyd 2 gŵyn cam 2, cwblhawyd 1 ac mae 1 gŵyn yn cael ei hymchwilio ar hyn o bryd.

Mae rhai enghreifftiau o'r cwynion a dderbyniwyd i'w gweld isod:

- Cofnodi gwybodaeth mewn dogfennau ffurfiol ac ansawdd y cyfathrebu a rennir rhwng gweithwyr proffesiynol ac achwynwyr.

Dyma rai enghreifftiau o'r dysgu a nodwyd ac a weithredwyd o fewn gwasanaethau Oedolion drwy gydol y cyfnod:

- Bydd staff yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd cofnodi gwybodaeth gywir yn yr iaith briodol, a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd fel rhan o'r broses hon.



Hyrwyddo a Gwella Llesiant y Rhai Rydyn ni'n eu Helpu

Blaenoriaethau

Cynllun Corfforaethol 2022/27 yw map ffordd y Cyngor sy'n nodi gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r Cyngor ac mae'r cynlluniau busnes yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Cynllun Corfforaethol. Dangosir blaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol isod ac mae'r Safonau Ansawdd yn dangos lle mae gwelliant wedi'i wneud, lle yr aethpwyd i'r afael â heriau a lle mae canlyniadau wedi'u cyflawni.

Blaenoriaethau Adrannol

- Gwella hygyrchedd, darparu gwybodaeth a chyngor i alluogi pobl i gefnogi eu lles eu hunain.
- Gweithio gyda phobl i wneud yn siŵr eu bod yn cael dweud eu dweud wrth gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.
- Ymyrryd yn gynnar i atal problemau rhag cynyddu.
- Gweithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid gan gynnwys Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ac awdurdodau cyfagos i ddarparu gofal a chymorth ymatebol integredig.
- Sicrhau bod gennym weithlu sydd â'r sgiliau, y cymhelliant a'r cymorth priodol gyda llwybrau datblygu gyrfa glir ar waith sy'n cefnogi ein darpariaeth gwasanaeth.
- Bod â threfniadau diogelu effeithiol ar waith i amddiffyn pobl rhag niwed.
- Datblygu dull partneriaeth o leihau a lleddfu effeithiau tlodi.

Blaenoriaethau Gwasanaethau Plant

- Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ddiogelu.
- Sicrhau bod gennym weithlu sydd â'r sgiliau, y cymhelliant a'r cymorth priodol gyda llwybrau datblygu gyrfa glir ar waith sy'n cefnogi ein darpariaeth gwasanaeth.
- Sicrhau bod pob tîm yn darparu ymagwedd sy'n seiliedig ar ganlyniadau at arfer a chyflenwi gwasanaethau.
- Sicrhau ein bod yn darparu/comisiynu gwasanaethau cymorth modern, hyblyg, cost effeithiol o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion llesiant plant heddiw ac yn y dyfodol.
- Sicrhau bod cymorth ataliol ar gael i blant a'u teuluoedd, sy'n hyrwyddo ymyrraeth gynnar ac yn atal anghenion rhag gwaethygu.
- Rheoli cyllideb y Gwasanaethau Plant i sicrhau bod gwariant yn dod o fewn y gyllideb.
- Sicrhau bod camau gweithredu Strategaeth Lleihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal 2020 – 2025 yn Ddiogel yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd.
- Sicrhau bod canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal yn parhau i wella trwy roi'r cynllun gweithredu Rhianta Corfforaethol ar waith.
- Adolygu'r ffordd y mae gwasanaethau plant yn gweithredu a phenderfynu a oes angen newid er mwyn rheoli'r galw a'r llwyth gwaith.
- Bod Gwasanaethau Plant yn cyfrannu at fodloni'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy.

Blaenoriaethau Gwasanaethau Oedolion

- Sicrhau bod pob oedolyn yn cael ei ddiogelu.
- Sicrhau bod gennym weithlu sydd â'r sgiliau, y cymhelliant a'r cymorth priodol gyda llwybrau datblygu gyrfa glir ar waith sy'n cefnogi ein darpariaeth gwasanaeth.
- Sicrhau bod pob tîm yn darparu ymagwedd sy'n seiliedig ar ganlyniadau at arfer a chyflenwi gwasanaethau.
- Sicrhau ein bod yn darparu / comisiynu gwasanaethau cymorth modern, hyblyg, cost-effeithiol o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion llesiant presennol ac yn y dyfodol oedolion agored i niwed a'u gofawyr teuluol di-dâl.
- Sicrhau bod cymorth ataliol ar gael i oedolion a'u gofawyr di-dâl, sy'n hybu ac yn cynnal annibyniaeth bersonol.
- Rheoli cyllideb y Gwasanaethau Oedolion i sicrhau bod gwariant yn dod o fewn y gyllideb.
- Cynnal adolygiad o'r model presennol o Opsiynau Cymunedol.
- Bod Gwasanaethau Oedolion yn cyfrannu at fodloni'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy.

Cynnydd Safonau Ansawdd

Yn ystod asesiad cynhwysfawr o berfformiad ar ddiwedd 2022/23, adnabuwyd y cyflawniadau a'r heriau canlynol fel rhan o Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor.

Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni

Y Timau **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh)** yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y cyhoedd sy'n dymuno cael cyngor a chymorth ac ar gyfer cysylltiadau ac atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant. Mewn perthynas â gwasanaethau oedolion mae hyn hefyd yn cynnwys cysylltiadau ar gyfer rhai swyddogaethau iechyd. Mae amrywiaeth o weithwyr proffesiynol eraill yn gweithio o fewn y timau hyn. Mae'r timau'n cymryd **agwedd ataliol** i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu cyn gynted â phosibl, gan y gwasanaeth cywir, i atal anghenion rhag gwaethygu. Mae cysylltiadau â GCCh yn parhau i fod yn uchel ac wedi bod yn cynyddu drwy gydol cyfnod yr adroddiad hwn. Mae'r Tîm GCCh Plant yn cael ei ariannu gan gymysgedd o gyllid craidd a grant sy'n risg os caiff cyllid grant yn y dyfodol ei ddileu. Fodd bynnag, aeth y strwythur GCCh Gwasanaethau Oedolion newydd yn fyw ym mis Ebrill 2022 ac nid yw bellach yn dibynnu ar arian grant i greu gwasanaeth mwy cynaliadwy.

Mae darparu gwasanaethau ataliol yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar draws yr holl wasanaethau. Mae timau GCCh Gwasanaethau Plant wedi gweld cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau, ond, er gwaethaf hyn, deliwyd â phob atgyfeiriad o fewn yr amserlenni statudol. Mae pob cyswllt ar draws y gwasanaethau oedolion a phlant yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfhau canlyniadau trwy sefydlu **'Yr hyn sy'n bwysig'** i'r cwsmer ac mae nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu dyrannu yn parhau i fod yn sefydlog, gan ddangos bod y gwaith ataliol, a wneir wrth y 'drws ffrynt', yn parhau i fod yn llwyddiannus.

Cefnogir staff gyda mynediad i hyfforddiant ar 'Yr hyn sy'n bwysig'. Mae staff newydd hefyd wedi mynychu sesiynau hyfforddi ar **Gyfathrebu Cydweithredol** ac wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu eraill sydd ar gael er mwyn cefnogi arfer sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, a chyflwyno ymyriadau sy'n seiliedig ar ddull seiliedig ar ddeilliannau/cryfderau. Mae **sesiynau ymarfer myfyriol misol** yn parhau ym mhob un o'r meysydd gwasanaeth ac mae hyfforddiant gloywi ar gael i'r holl staff trwy Ddatblygu'r Gweithlu.

Mae staff Gwasanaethau Oedolion wedi bod yn ymgymryd â **chyfleoedd dysgu a datblygu ar y cyd â chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB)** fel rhan o brosiect a hwyluswyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru (GCC) a bu pwyslais cryf ar ganolbwyntio ar newid y sgwrs gyda chleifion yn ystod ein hasesiadau yn ein lleoliadau aciwt a chymunedol. Gwerthuswyd y gwaith hwn gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn Hydref 2022. Cyflwynir canlyniad gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru i Fwrdd Partneriaeth Strategol Oedolion Gwent fel rhan o'i arddangos ar draws y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh). Mae adroddiad gwerthuso ar Werthusiad Rhaglen Cydbwysio Hawliau a Chyfrifoldebau i'w weld ar ddiwedd y ddogfen o dan 'dogfennau defnyddiol'.

Mae **trefniadau partneriaeth rhanbarthol** yn parhau ac mae gan Flaenau Gwent lais cryf yn natblygiad y trefniadau hyn. Cynhelir goruchwyliaeth gan Reolwyr Gwasanaeth ar y Cyd rhwng y Penaethiaid Gwasanaeth o Gaerffili a Gwasanaethau Plant Blaenau Gwent ynghylch darpariaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI), mae hyn yn sicrhau y diwallir anghenion plant a phobl ifanc Blaenau Gwent, sy'n derbyn gwasanaethau gan y GTI.

Ar draws y Gwasanaethau Oedolion rydym yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer trafod achosion ehangach a datrys problemau. Mae gennym gyfarfodydd 'powlen bysgod' wythnosol sy'n canolbwyntio ar:

- **Cyflwyno achosion cymhleth**
- **Cymorth cymheiriaid**
- **Sicrwydd Ansawdd**
- **Cyfleoedd cyffredinol ar gyfer datrys problemau yn greadigol**
- **Trafodaethau achos**
- **Ffyrdd newydd o weithio**
- **Sut orau i gefnogi pobl sy'n cael mynediad i'n gwasanaethau.**

Mae'r Gwasanaethau Oedolion hefyd yn edrych ar strwythurau cyfarfodydd ar y ffordd orau i symleiddio'r dull 'powlen bysgod' gyda Chydbwyso Hawliau a Chyfrifoldebau ac Adolygu Systemau. Bydd hyn yn cael ei gytuno a'i gwblhau yn Chwarter 1 2023/24.

Mae mesurau perfformiad a adroddwyd yn ystod 2022/23 yn dangos: -

Gwasanaethau Oedolion, Cyngor a Chymorth (GCCh) - Derbyniwyd **4610 o ymholiadau 'drws ffrynt'** o'i gymharu â **2931 yn 21/22 (Awst 21 - Mawrth 22)**. Nifer yr **atgyfeiriadau a ddatryswyd yn y GCCh oedd 2767** (yn cynnwys yr ymholiadau hynny a gyfeiriwyd, a gaewyd cyn symud ymlaen i asesiad a'r rhai a arweiniodd at GCCh) o gymharu â **1562 yn 21/22 (Awst 21 - Mawrth 22)**. Aeth y gweddill, **1843, i'r timau hirdymor, Diogelu, Tîm Adnoddau Cymunedol (CRT) a thîm gofalwyr di-dâl yr Awdurdod Lleol o gymharu â 1369 yn 21/22 (Awst 21 - Mawrth 22)**.

Gwasanaethau Plant GCCh - roedd cyfanswm o **6,755 o atgyfeiriadau** gyda **772 ohonynt yn cael eu cyfeirio at wasanaethau ataliol (Teuluoedd yn Gyntaf) o gymharu â 5781 o atgyfeiriadau yn 21/22 gyda 546 ohonynt yn cael eu cyfeirio at wasanaethau ataliol (Teuluoedd yn Gyntaf)**.

Mae cefnogaeth i'n gofalwyr di-dâl gan gynnwys ein Gofalwyr Ifanc, wedi elwa o ddatblygiad cynllun newydd sy'n eu cefnogi gydag effaith yr argyfwng costau byw. Mae'r adran wedi rhoi cyfres o gyfleoedd gwybodaeth ar waith ynghyd â chynllun grant bach i ofalwyr gyda chyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr ar gyfer 2022/23 a 2023/24. Mae cydlynu'r prosiect hwn wedi'i arwain gan swyddogion o'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion i sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd cyfartal i'n gofalwyr ifanc ac oedolion.

Ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant, rydym yn monitro ac yn adolygu'r ffordd y mae gwasanaethau'n gweithredu'n barhaus ac yn penderfynu a oes angen newid er mwyn rheoli'r galw a'r llwyth gwaith. O ganlyniad i hyn, ym mis Ionawr 2023, dechreuodd peilot newydd gyda **Thimau Ardal** Gwasanaethau Plant a fydd yn rhedeg dros gyfnod o 12 mis. O fewn y peilot hwn, sefydlwyd tri thîm cynllunio gofal gweithredol newydd gyda'r 4ydd yn dod yn **Dîm Asesu Statudol**. Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod y newid yn cael effaith gadarnhaol ar gapasiti a chanlyniadau i'r plentyn a'r teulu. Mae'r Tîm Asesu Statudol hefyd wedi lleddfu'r pwysau gwaith ar y Timau Ardal. Adolygir y peilot yn rheolaidd i sicrhau bod y cyflenwad staff yn briodol a bod y model newydd yn gweithio'n dda. Mae beichiau achosion yn parhau i gael eu monitro ac mae'r holl staff a rheolwyr tîm yn sicrhau bod beichiau achosion yn gywir i sicrhau eu bod yn hylaw.



Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hybu iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl

Yn y Gwasanaethau Oedolion rydym wedi cyflwyno swydd newydd Uwch Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol gyda chyfrifoldeb am y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS). Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â thîm DoLS Gwent a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPABM). Mae nifer y bobl sy'n aros am asesiad DoLS ym Mlaenau Gwent wedi lleihau'n sylweddol yn ystod 2022/23 o ganlyniad uniongyrchol i'r monitro lleol ac o ganlyniad i adnoddau cydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r ôl-groniad trwy dîm DoLS Gwent ac asesiadau a gomisiynir yn allanol.

Mae **Cynllun Gweithredu Dementia Gwena** wedi'i ddatblygu ac mae'n cyd-fynd â'r 20 o Safonau Llwybr Dementia Cymru Gyfan a fydd hefyd yn cynnwys mesurau perfformiad. Mae is-grwpiau ffrwd gwaith wedi'u datblygu i fwrw ymlaen â'r rhaglen waith hon sy'n cynnwys:

- **Ymgysylltu**
- **Gwasanaeth Asesu'r Cof**
- **Rôl Cysylltydd Dementia**
- **Siarter Ysbyty sy'n Deall Dementia**
- **Addysg/Gweithlu**
- **Mesur/Perfformiad**

Mae trafodaethau'n parhau gyda'r gymdeithas Alzheimer's ynghylch cynghorwyr dementia ar gyfer y rhaglen ailalluogi dementia yn unol â'r cynllun gweithredu Dementia a disgwylir i'r gwasanaeth newydd hwn ddechrau ym mis Ebrill 2023.

Rydym yn parhau i anelu at ddarparu gwasanaethau modern hyblyg ac ymatebol sy'n galluogi pobl hŷn i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth a byw gyda chymorth priodol yn eu cymunedau. Rydym wedi datblygu fflat SMART technoleg gynorthwyol newydd. Mae ein gwasanaeth ailalluogi o fewn ein tîm Adnoddau Cymunedol integredig yn parhau i ddarparu cymorth ailalluogi sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Rydym wedi parhau i weld **galwadau cynyddol yn cael eu gosod ar y system lechyd a Gofal Cymdeithasol gan gynnwys ar ein safleoedd ysbyty cymunedol ac aciwt**. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn Awdurdod Lleol Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i adolygu'r modelau cymorth presennol i alluogi cleifion sy'n barod i gael eu rhyddhau i ddychwelyd yn ddiogel i'w cartrefi eu hunain neu i ddefnyddio llety arall, dros dro, wrth aros am gymorth i'w galluogi i ddychwelyd adref. Rydym yn defnyddio cyllid grant Cronfa Integredig Rhanbarthol (RIF) y bartneriaeth bresennol i ddatblygu dewislen o wasanaethau cymorth gan gynnwys, cynyddu'r defnydd o welyau **Cam yn Nes at Adre fi leihau'r ddibyniaeth ar arosiadau Ysbyty a lleihau hyd arosiadau ysbyty a lleihau arosiadau**, gan ddarparu capasiti ychwanegol mewn cartrefi gofal yn ogystal â chapasiti ychwanegol o fewn ein timau asesu er mwyn mynd i'r afael â'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol.

Mae dull gweithredu 'system gyfan' ledled Gwent ar waith i gefnogi pobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl ac mae'n cynnwys:

- **Iechyd Meddwl 111 - pwynt cyswllt yn fyw 28 Tachwedd, mae hwn yn darparu pwynt cyswllt sy'n hygyrch i unrhyw un sy'n profi argyfwng iechyd meddwl neu drallod emosiynol yng Ngwent - hefyd ar gyfer teulu/frindiau a gofalwyr.**
- **Cyflwynwyd gwasanaeth cymorth Adran Achosion Brys yn Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Grange, mae gweithwyr cymorth cymheiriaid yn darparu cymorth i'r rhai sydd mewn trallod emosiynol, gan atal gwaethygu a gwella ansawdd gwasanaethau cymorth iechyd meddwl. Dewisiadau eraill yn lle ysbyty.**
- **Mae gwasanaeth Rhannu Bywydau Iechyd Meddwl yn parhau i fod yn llwyddiannus o ran lleihau'r rhai mewn argyfwng sy'n cael eu derbyn i unedau seiciatrig a hefyd cefnogi rhyddhau'n gynt. Mae dinasyddion yn adrodd gwell boddhad.**
- **Tŷ Cymorth Argyfwng, Tŷ Cynnal ar gyfer y rhai sy'n bodloni gofynion arhosiad diogel**

Yn y Gwasanaethau Plant, mae **Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS)** wedi cychwyn ar y broses rhybuddio cynnar lle caiff plant eu hatgyfeirio at weithiwr cyswllt o fewn mis i orchymyn lleoli er mwyn sicrhau bod yr holl gysylltiadau posibl â theuluoedd sy'n mabwysiadu posibl yn cael eu harchwilio mewn modd amserol.

Mae'r **Cydlynnydd Gwaith Taith Bywyd** yn cyflwyno hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol gofal plant. Gwnaethpwyd gwelliannau i ansawdd y deunyddiau a ddarperir i **rieni sy'n mabwysiadu**. Mae deall y diwrnodau plentyn a llinellau amser anogaeth trawma yn cael eu cwblhau ar gyfer plant 18 mis+ oed ac mae hyn yn rhoi gwybodaeth well i deuluoedd sy'n mabwysiadu am effaith profiadau bywyd cynnar plentyn.

Mae Gweithiwr Cyswllt SEWAS yn parhau i hyrwyddo cyswllt â siblingiaid sy'n cynnwys siarad â gweithwyr cymdeithasol gofal plant yn gynharach ynghylch **trefniadau cyswllt siblingiaid** ac adolygu trefniadau presennol. Mae cyfarfodydd rhieni biolegol untro ar gynnydd.

Mae atgyfeiriadau at **airiolaeth** yn cael eu monitro'n agos gan y rheolwr gwasanaeth ac adroddir ar berfformiad da ar draws y timau. Mae'r holl staff yn y gwasanaethau ataliol wedi'u hyfforddi mewn **Cyfathrebu Cydweithredol** ac mae staff newydd yn dechrau ar hyfforddiant fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

Mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod hyfforddiant diogelu gorfodol ar gyfer gofalwyr maeth yn cael ei ddarparu wyneb yn wyneb yn hytrach nag yn rhithiol. Mae anghenion hyfforddi gofalwyr maeth yn parhau i gael eu monitro a'u hyrwyddo yn ystod adolygiadau blynyddol, arfarniadau a sesiynau goruchwyllo, a dechreuodd rhaglen o sesiynau hyfforddi/myfyriol ar gyfer gofalwyr maeth ym mis Ionawr 2023 ac mae'n cael ei chyflwyno gan **MyST (Fy Nhîm Cymorth)**.

Cyflwynwyd **Rhaglen Rhianta Circle of Security** i nifer fach o rieni â phlant ifanc, mewn cydweithrediad â'r Seicolegydd a'r Gweithiwr Cymorth. Yn ogystal, mae *Circle of Security* wedi cael ei gyflwyno i garfan o ofalwyr maeth, gan helpu i **sefydlogi plant mewn gofal** ac atal risg o ddiffyg yn y lleoliad. Yr adborth yw eu bod wedi gweld y rhaglen rhianta yn fuddiol iawn ac yn addasu eu harddulliau magu plant yn unol â hynny.

Ym mis Ebrill 2022, sefydlodd Blaenau Gwent ei MyST ei hun i ddarparu mwy o gapasiti o fewn y gwasanaeth. Ers yr amser hwn, mae staff MyST wedi bod yn mynychu digwyddiadau Newyddion a Rhwydweithio ac yn cyfarfod â mentoriaid er mwyn gwreiddio'r gwasanaeth yn llawn ym Mlaenau Gwent. Yn gadarnhaol, mae'r gwasanaeth bellach yn gweithio gyda phlant, o dan bob un o'r timau gweithredol, gan awgrymu bod y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio gan bawb. Mae MyST yn gweithredu hyd eithaf ei allu gan **ddarparu cymorth i 15 o blant a phobl ifanc** yn ogystal â rhai darnau o waith pwrpasol ychwanegol. Mae'r gwasanaeth MyST hefyd yn parhau i weithio gyda nifer o bobl ifanc mewn gofal preswyl ar sail 'cam-i-lawr' yn ogystal â gweithio gyda nifer o **bobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i ofal preswyl** ar sail ataliol.

Erys heriau o ran argaeledd **llety 'cam-i-lawr'** o ofal preswyl i ofal maeth sy'n dibynnu i raddau helaeth ar argaeledd lleoliadau maeth 'cam-i-lawr'. **Gyda'r galw ar leoliadau a'r anawsterau o ran recriwtio gofalwyr maeth, mae'r gostyngiad yn nifer y plant mewn gofal preswyl yn arafach nag y byddem wedi'i obeithio, fodd bynnag roedd cynnydd o 22/23 yn y niferoedd yn gostwng yn bennaf oherwydd bod y garfan bresennol o bobl ifanc yn cyrraedd 18 oed ac yn symud i mewn i lety annibynnol.**

Mae **Gwerthusiad Prifysgol Caerwrangon o'r Gwasanaeth Anabledd 0-25** wedi'i gynnal. Mae'r Gwerthusiad yn dangos defnydd da o'r **mynegai anabledd a'r dudalen Facebook anabledd** ac mae'r gwasanaethau hyn yn parhau i gael eu cynnig o fewn y tîm.

Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â chefnogi partneriaid, i gefnogi pobl ifanc. Fel rhan o hyn, mae'r **Tim Cefnogi Newid wedi bod yn gweithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Ieuentid** i redeg grŵp bach wedi'i lywio gan drawma, yn seiliedig ar weithgareddau ar gyfer rhai o'r bobl ifanc anoddaf eu cyrraedd sy'n agored i'r tîm. Mae hyn yn cynnwys sefydlu sesiwn chwaraeon a pharhad y **Grŵp Cefnogi Gofalwyr**. Mae'r tîm hefyd wedi cwblhau prosiect gwaith grŵp gan weithio mewn partneriaeth ac ochr yn ochr â grŵp wedi'i dargedu o **ferched ifanc sy'n edrych ar godi dyheadau/hunan-barch a hunanwerth**. Mae'r prosiect wedi'i werthuso'n dda iawn ac mae'r tîm yn edrych i mewn i sut y gallant redeg prosiectau pellach.

Eleni, gofynnodd Augusta House i'n rheoleiddiwr Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gofrestru i ddarparu **cymorth seibiant** i blant ifanc yn ogystal ag oedolion, a chytunwyd ar hynny. Mae hyn bellach wedi galluogi'r **Tim Anabled** i gael mynediad at ddarpariaeth seibiant preswyl sy'n profi'n llwyddiannus i blant ag anabledd ac sy'n cefnogi anghenion eu rhieni a'u gofalwyr, yn ogystal â chanlyniadau i'r bobl ifanc.



Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Mae'r Adran yn cydnabod pwysigrwydd cael **Timau Diogelu cadarn a chynaliadwy ar draws Gwasanaethau Oedolion a Phlant** i sicrhau nid yn unig ein bod yn bodloni ein gofynion deddfwriaethol, ond ein bod hefyd yn gallu amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed.

Mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi rhoi **strwythur staffio diogelu oedolion** newydd ar waith sydd bellach yn weithredol ac yn gweithio'n effeithiol. Mae uwch ymarferydd ychwanegol ar gyfer diogelu wedi'i greu i greu capasiti ychwanegol a hefyd i ddarparu gwydnwch gwneud penderfyniadau.

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau o atgyfeiriadau diogelu yn ystod 2022/23 o gymharu â 2021/22.



Mae **hyfforddiant diogelu staff** yn rheolaidd gyda modelau dysgu gwahanol yn cael eu cynnig i wahanol grwpiau staff. Mae hyfforddiant gloywi wedi'i ddarparu i'r Gwasanaethau Darparu sydd wedi cynnwys sesiynau wedi'u comisiynu gan Dîm Datblygu'r Gweithlu a hefyd sesiynau dysgu pwrpasol a ddarparwyd gan ein Tîm Diogelu.

Mae pob atgyfeiriad diogelu yn parhau i gael ei reoli yn unol â **Gweithdrefnau Diogelu Cymru** a gofynion statudol. Mae archwiliad mewnol wedi ei gynnal mewn perthynas â phrosesau diogelu ar draws y gyfadran a rhoddwyd sicrwydd rhesymol.

Er bod cynnydd da wedi'i wneud, **mae angen cynnal y cyfraddau isel o swyddi Gweithwyr Cymdeithasol yn y Timau Ardal Plant**, ac mae arbedion wedi'u priodoli i'r gweithlu a allai effeithio ar y gallu i ddiogelu.



Cyflwynwyd **Adroddiad Diogelu Archwilio Cymru** i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 8 Mawrth 2023. Bydd y **Grŵp Arweinwyr Diogelu Corfforaethol**, a gadeirir gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant, gyda chynrychiolaeth o bob cyfarwyddiaeth ar draws y Cyngor, yn gweithredu'r argymhellion a nodwyd gan Adroddiad Archwilio Cymru. Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r argymhellion a wnaed, ac mae Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol newydd wedi'i gymeradwyo a bydd cydymffurfiaeth ar draws y cyngor yn cael ei fonitro gan y Grŵp Arweinwyr Diogelu Corfforaethol.

Mae holl staff newydd y Cyngor yn cael gwybod am drefniadau diogelu'r Cyngor fel rhan o'u rhaglen sefydlu. Mae'r holl staff mewn timau wedi cwblhau'r lefel berthnasol o hyfforddiant diogelu. Yn y tîm IAA Plant rhaid ymateb i bob atgyfeiriad Diogelu o fewn 24 awr ac rydym yn parhau i ymateb yn unol â hynny. Ymatebir i bob pryder diogelu gyda phenderfyniadau priodol a chynhelir pob trafodaeth strategaeth o fewn 24 awr fel arfer. Mae'r mater gyda'r Heddlu yn bodloni'r amserlen hon yn parhau i fod yn broblem pan fyddant yn ystyried nad yw'n frys, byddant yn trefnu i hyn gael ei gadw y tu allan i'r amserlen hon.

Mae **perfformiad diogelu** yn dda, mae cynadleddau **Amddiffyn Plant** wedi'u cynnal o fewn graddfeydd amser statudol yn ogystal â phob ymweliad statudol Amddiffyn Plant ar gyfer plant ar y gofrestr.

Ar hyn o bryd mae proses y Gynhadledd Amddiffyn Plant yn gweithredu fel model Hybrid o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd TEAMS. Mae arwyddion bod y model hwn yn boblogaidd gydag asiantaethau partner a theuluoedd. Mae Rheolwr y Tîm Diogelu yn parhau i adolygu modelau o hwyluso cynadleddau gan sicrhau bod anghenion diogelu'r plentyn yn parhau'n hollbwysig i unrhyw benderfyniadau a wneir yn y dyfodol.

Nifer y plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:



Mae cyfarfodydd **'Yr Hyn sy'n Bwysig'** wedi'u rhoi ar waith a'u defnyddio'n rheolaidd yn ymarferol gyda chyfranogiad amlasiantaethol a chraffu manwl ar yr holl **gynlluniau Amddiffyn Plant**.

Mae'r **rhadlen Hyfforddiant Blynyddoedd Cynnar, Amddiffyn Plant** yn cael ei chreu'n flynyddol a'i gwirio'n fisol i sicrhau ei bod yn gyfredol. Mae diogelu bob amser yn eitem sefydlog yn y Cyfarfodydd Rhwydwaith a chynhelir cyfarfodydd bob chwe mis gyda'r Arweinydd Diogelu a Rheolwr Amddiffyn Plant y Blynyddoedd Cynnar.

Rydym yn parhau i fod yn bartner allweddol i **Fwrdd Strategol Diogelu Gwent** ac is-grwpiau gweithredol perthnasol. Fel partner Bwrdd DoLS Gwent rydym yn parhau i baratoi ar gyfer gweithredu **deddfwriaeth Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS)** ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad ar y codau ymarfer hirddisgwyliedig.


Bu adolygiadau parhaus o restrau aros rheoli gofal oherwydd y galw am gapasiti a **llai o ofal cartref sydd ar gael i gefnogi pobl yn ddiogel gartref**. Rydym wedi defnyddio gwasanaeth gofal cartref brys DASH yn rhagweithiol i gwmpasu pecynnau gofal heb eu lleoli ac mae hyn wedi sicrhau nad oes dinasyddion wedi bod heb eu pecynnau gofal cartref a'u bod yn cael eu cefnogi'n ddiogel gartref. Mae pawb yn cael eu cefnogi'n ddiogel o fewn y capasiti sydd ar gael.

Mae gwaith wedi dechrau ar adolygu holl bolisiau a gweithdrefnau Gwasanaethau Oedolion. Fel rhan o'r gwaith hwn mae polisi meddyginiaeth **ein** Gwasanaethau Darparwr wedi'i adolygu a'i weithredu'n llawn, ynghyd â phedyn hyfforddi cynhwysfawr i holl staff gofal rheng flaen y Darparwr.

Mae cael gweithlu â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol yn hollbwysig wrth sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael eu diogelu. Mae'r adran wedi datblygu strategaeth gweithlu sydd nid yn unig yn sicrhau ein bod yn recriwtio ac yn cadw staff ar draws Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a'n timau Darparwyr ond ein bod hefyd yn cefnogi eu datblygiad, dilyniant a lles. Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r strategaeth gweithlu mae'r adran wedi llwyddo i recriwtio swyddog arweiniol i gefnogi rheolwyr i symud ymlaen a hyrwyddo'r cyfleoedd y gallwn eu cynnig i staff ym Mlaenau Gwent.

Fel partneriaeth, rydym wedi cyflwyno **cais Rhanbarthol Llywodraeth Cymru (Gwent) i gefnogi capasiti ar gyfer datblygu Trefniadau Amddiffyn Rhyddid** er mwyn darparu hawliau ac amddiffyniadau pwysig i bobl nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gytuno i drefniadau gofal, cymorth neu driniaeth pan fo'r trefniadau hyn yn gyfystyr ag achos o golli rhyddid. Yn ogystal â hyn, mae **Uwch ymarferydd Gwaith Cymdeithasol newydd â chyfrifoldeb am gymorth y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r DoLS** wedi'i recriwtio a disgwylir iddynt ddechrau ym mis Gorffennaf 2023.

Mae gostyngiad araf ond cyson yn nifer y **Plant sy'n Derbyn Gofal** yn parhau. Mae plant newydd yn dal i ddod i ofal ond rydym hefyd yn symud ymlaen gyda chyflawni Gorchmynion Gofal ar gyfer plant sy'n byw gartref neu gyda gofalwyr sy'n berthnasau.



Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Mae gwasanaethau seiliedig ar waith yn ein **timau Opsiynau Cymunedol a Gweithgareddau Dydd** wedi parhau drwy gydol y flwyddyn gyda myfyrwyr yn dychwelyd i leoliadau yn ein menter arlwygo mewn partneriaeth â Vison 21. Fel rhan o'n cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ag Anabledd Dysgu neu sy'n byw â iechyd meddwl gwael, rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd newydd i ddatblygu gan gynnwys datblygu mentrau arlwygo ychwanegol gan gynnwys caffi cymunedol newydd

Mae ein harlwy prydau cymunedol a hambwrdd te prynhawn yn parhau i dyfu ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth â dysgwyr o **Gymuned Ddysgu Abertyleri** i ail-frandio'r gwasanaeth fel rhan o weithredu ein faniau dosbarthu trydan newydd.

Mae ein Gwasanaeth Opsiynau Cymunedol Gwasanaeth Oedolion yn parhau i ddarparu gweithgareddau dydd i oedolion agored i niwed yn eu cymunedau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys cefnogi pobl i gael mynediad at gyrsiau hyfforddi a datblygu, sesiynau gweithgaredd, dosbarthiadau ymarfer corff, sesiynau campfa ac ati.

Mae rheolwyr darparwyr wedi dechrau ymgysylltu â **myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Coleg Gwent (Campws Glynebwy)** a byddant yn cynnig lleoliadau gwaith i tua 15 o fyfyrwyr yn ystod blwyddyn academiaidd 2022/23. Bydd hyn yn galluogi ein tenantiaid / preswylwyr i ymgysylltu â'r myfyrwyr ac yn ogystal rydym yn cynllunio i fyfyrwyr o'r cyrsiau Gwallt a Harddwch ddarparu sesiynau yn ein Cartrefi Gofal.

Mae'r gostyngiad mewn cyfyngiadau COVID-19 wedi galluogi ein cartrefi gofal preswyl, gwasanaethau byw â chymorth a Chanolfan Seibiant Augusta i ailgysylltu â'r gweithgareddau cymunedol ehangach a chroesawu ymwelwyr yn ôl i gefnogi ein preswylwyr. Mae Cwrt Mytton wedi croesawu dysgwyr o nifer o'n hysgol fel rhan o'n ffrydiau gwaith rhwng cenedlaethau ac mae ein cymdeithasau preswylwyr a ffrindiau yn cydlynu gweithgareddau rheolaidd sy'n dod â'r gymuned yn ôl i mewn i drigolion.

Mae ein podiau Hyrwyddo Annibyniaeth newydd yng Nghanolfan Seibiant Augusta wedi'u cwblhau yn dilyn dyraniad cyllid o grant Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) Llywodraeth Cymru. Maent i fod i agor yn haf 2023 a byddant yn darparu cyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu brofi byw'n annibynnol, mewn amgylchedd diogel.

Bu cynllun grant costau byw a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru dros y gaeaf yn llwyddiant ysgubol gyda llawer o **ofalwyr di-dâl yn cael eu cefnogi gyda thalebau bwyd** ac eitemau i'w helpu i gynnal eu llesiant gan gynnwys:

- **Aelodaeth campfa**
- **iPads**
- **Gliniaduron**
- **Gwersi gyrru**

Roedd gwasanaethau **Dechrau'n Deg** yn rhan o arolygiad Estyn a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022 ar Wasanaethau Addysg Blaenau Gwent a daeth allan fel **maes rhagoriaeth** mewn adborth llafar.

Mae **Teuluoedd yn Gyntaf** yn Gyntaf yn parhau i weithio'n ddwys i atal achosion rhag gwaethygu i wasanaethau statudol gyda:

- **330 o achosion yn weithredol ar ddiwedd mis Mawrth 2023.**
- **237 o achosion yn cael eu trafod mewn paneli Llesiant yn y chwarter diwethaf.**
- **Amrywiaeth o waith grŵp, cymunedol a digwyddiadau yn cael eu cyflwyno trwy gydol y flwyddyn.**

Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2021-2022 roedd y canlynol yn ymwneud â'n plant sy'n derbyn gofal:

- **Roedd 142 o blant o oedran ysgol statudol yn derbyn gofal gan awdurdod lleol Blaenau Gwent.**
- **Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol pan oedd 154 o blant.**
- **Mae'r mwyafrif yn parhau i gael eu haddysgu o fewn Blaenau Gwent ac yn mynychu ysgolion prif ffrwd.**
- **Mae cyfran fach yn mynychu lleoliadau addysg fwy arbenigol.**
- **Enillodd bron pob un o'r dysgwyr gymwysterau cydnabyddedig ar ddiwedd eu hastudiaethau ysgol statudol.**
- **Ni chychwynwyd cyfanswm o 11 cynllun o fewn 10 diwrnod:**
 - **Roedd wyth o ganlyniad i oedi cyn hysbysu'r tîm addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ar yr adeg pan ddaeth y plant i ofal; ac**
 - **Roedd tri oherwydd bod y dysgwyr yn Blant sy'n Ceisio Lloches ar eu pen eu hunain nad oeddent yn yr ysgol ar adeg dechrau derbyn gofal.**
- **Mae'r mwyafrif bellach yn cymryd rhan mewn cyfleoedd addysgol a/neu hyfforddiant ôl-16.**
- **Cynyddodd nifer y gwaharddiadau a roddwyd mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal.**
- **Y prif reswm dros waharddiadau o hyd yw oherwydd ymddygiad aflonyddgar parhaus. Mae nifer y gwaharddiadau ar gyfer plant oed cynradd yn parhau i fod yn isel.**
- **Dechreuwyd 54% o Gynlluniau Addysg Personol ar gyfer plant newydd eu lletya o fewn yr amserlenni statudol.**

Profodd nifer fechan o'r plant sy'n derbyn gofal **newid ysgol** yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gynydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae cysondeb addysg yn parhau i gael ei ystyried fel rhan o'r broses baru pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal yn symud lleoliad. Darperir cludiant lle bo angen i sicrhau sefydlogrwydd ysgol. Pan fydd yn rhaid i blentyn symud ysgol, mae prosesau ar waith i sicrhau bod oedi cyn derbyn yn cael ei osgoi, lle bynnag y bo modd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddarparu cyllid ar gyfer nifer penodol o blant i gymryd rhan yn y Clwb Blwch Llythyrau bob blwyddyn. Mae'r **Clwb Blwch Llythyrau yn annog darllen er pleser a dysgu gartref**. Mae'n helpu i wella'r rhagolygon addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae parseli wedi parhau i gael eu dosbarthu i'n plant yn fisol rhwng mis Hydref a mis Mai, gyda pharsel Nadoligaidd ychwanegol yn cael ei ddarparu ym mis Rhagfyr.



Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach


Mae llwybr ar gyfer **cymorth cynenedigol a gefnogir gan Teuluoedd yn Gyntaf** wedi'i ddatblygu, a fydd yn golygu y bydd pob menyw feichiog ym Mlaenau Gwent yn gallu cael mynediad at y cymorth Cynenedigol priodol nes bod y plentyn yn 1 oed.

Mae **Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA)** yn ffordd o roi sefydlogrwydd i blentyn na all ddychwelyd i fyw at ei riant biolegol ac nad yw mabwysiadu'n briodol iddo. Mae'n ffordd gyfreithiol o roi cyfrifoldebau clir, hirdymor am fagwraeth y plentyn i'r sawl sy'n gofalu am y plentyn. **Ar 31 Mawrth 2023 roedd 145 o blant a oedd yn destun GGA yn byw mewn 107 o deuluoedd a oedd yn agored i'r gwasanaeth.**

Mae **proses ymgynghori ffurfiol ar gyfer gofawyr maeth** wedi'i rhoi ar waith gyda'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r arolwg erbyn 31 Mawrth 2023, a bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei brosesu a'i adrodd yn y dyfodol.

Mae wedi bod yn **anodd iawn recriwtio gofawyr maeth** ac mae diddordeb mewn maethu ar hyn o bryd yn isel iawn, er gwaethaf ymdrechion i gynyddu ymwybyddiaeth trwy gyfryngau cymdeithasol a gweithgaredd recriwtio. Mae perthynas waith agos gyda Rheolwr Maethu Cymru a hyrwyddo brand Maethu Cymru yn parhau. Mae'r **galw am leoliadau maeth wedi cynyddu** a bu **mwyafrif o ddibyniaeth ar leoliadau Asiantaeth Maethu Annibynnol (IFA).**

Mae timau'n parhau i ymarfer mewn ffordd sy'n **canolbwyntio ar ganlyniadau** lle rydym yn nodi opsiynau teuluol yn gynnar yn y broses ymyrryd, ac rydym yn blaenoriaethu hyn os bydd yn rhaid i blant gael eu derbyn i ofal yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, mae sefyllfaoedd pan nad oes lleoliadau priodol ar gael yn lleol sy'n arwain at orfod cael mynediad i **leoliadau Asiantaeth Maethu Annibynnol a gofal preswyl i blant ifanc.** Defnyddir goruchwyliaeth yn gyson i adolygu cynlluniau Plant sy'n Derbyn Gofal ac ystyried cyfleoedd i gyflawni'r Gorchymynion Gofal. Mae adolygu cynllunio gofal ar gyfer y plant hyn yn rheolaidd yn flaenoriaeth ac ar gyfer y rhai sydd â lefel uchel o anghenion, ystyrir atgyfeiriadau i MyST a'u blaenoriaethu.



Er mwyn helpu i liniaru'r nifer cyfyngedig o leoliadau sydd ar gael, cynhaliodd **Maethu Cymru** ymgyrchoedd lleol a rhanbarthol fel a ganlyn:

- **Pwrpas Newydd**
- **Yr amser iawn i faethu**
- **Gwneud gwahaniaeth yn 2023**
- **Dod yn ofalwr maeth yn eich ardal leol**

Mae '**Grŵp Cymorth Rhanbarthol 'Dynion Sy'n Gofalu'** wedi'i sefydlu gyda phedwar cyfarfod yn cael eu cynnal dros gyfnod o flwyddyn. Mynychodd 15 o ofalwyr maeth gwrywaidd y grŵp cyntaf.

Mae Gwasanaethau Oedolion wedi adolygu eu tîm Gwaith Cymdeithasol Ysbytai ac mae wedi creu capasiti ychwanegol i gefnogi cleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr i osgoi arosiadau hir diangen yn yr ysbyty. Mae'r tîm hwn yn gweithio'n agos gyda staff ward yr ysbyty, cynorthwywyr rhyddhau a therapyddion i sicrhau y gall cleifion ddychwelyd adref cyn gynted â phosibl. Mae'r tîm hefyd yn cefnogi gofalwyr di-dâl teuluol trwy'r broses ryddhau ac yn darparu asesiadau gofalwyr statudol i alluogi gofalwyr i gynnal eu rôl ofalu ochr yn ochr â'u hymrwymiaadau gwaith, iechyd, hamdden a theulu.

Mae seibiant yn rhan bwysig o gynnal cyfrifoldebau gofalu. Mae'r adran ar hyn o bryd yn gweithio gyda'n hawdurdodau cyfagos i ddatblygu cynigion seibiant gwell ochr yn ochr â'r cynigion mwy traddodiadol o leoliadau mewn cartrefi gofal, Canolfan Seibiant Tŷ Augusta a Chyfleoedd Dydd. Disgwylir i'r cynllun newydd gael ei lansio yn haf 2023 ac mae'n drefniant partneriaeth gyda NEWCIS, darparwr gwasanaethau gofalwyr mawr yng Ngogledd Cymru.



Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni mwy o les economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion

Mae gwaith yn parhau i gefnogi **gostyngiad yn effaith tlodi a digartrefedd** trwy ddarparu gwasanaethau Grant Cymorth Tai (GCT) arloesol ac effeithiol ac mae model cymorth hybrid newydd bellach wedi'i ymgorffori'n llawn ar draws y Gwasanaethau Darparu. Fodd bynnag, mae **dyfodol y cyllid Grant Cynnal Tai yn parhau i fod yn bryder**. Mae Darparwyr Cymorth yn nodi bod eu costau'n codi'n sylweddol ac nad yw eu gwerth cytundebol presennol bellach yn talu costau darparu'r gwasanaeth. Bydd hyn yn effeithio nid yn unig ar wasanaethau presennol ond hefyd ar gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn cael ei fonitro'n agos gan y Tîm Cefnogi Pobl.

Mae **sefydlogrwydd a chynaliadwyedd ein marchnad gofal cartref a chartrefi gofal yn flaenoriaeth sylweddol** i'n timau oherwydd effaith COVID-19, arwyddion cynnar o effaith y cynnydd mewn costau tanwydd a chyfleustodau, a phwysau staffio difrifol. Mae llawer o ddarparwyr, gan gynnwys ein gwasanaethau mewnol ein hunain, wedi adrodd yn ystod 2022/23 am **lefelau uchel o swyddi gwag** sy'n effeithio ar eu gallu i ddarparu cymorth. Mae ein tîm comisiynu wedi parhau i weithio gyda Darparwyr mewn perthynas â chyflwyno'r **cyflog byw gwirioneddol** a hefyd drwy gwmpasu'r cymorth posibl y gellir ei roi i'n gweithwyr gofal cartref i gynyddu cyflogau i'w digolledu am gostau cynyddol tanwydd. Achosodd y cynnydd cyflym mewn prisiau tanwydd bryder ymhlith y farchnad gofal cartref. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, **gweithredodd y Cyngor yn gyflym a darparu cyllid ychwanegol i staff i gefnogi'r cynnydd mewn costau tanwydd yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn**.

Oherwydd yr Argyfwng Costau Byw, roedd y Tîm Cefnogi Pobl yn gallu **ariannu Pecynnau Cynnal Cartref ychwanegol** i gefnogi pobl wrth symud i'w llety eu hunain i gynorthwyo gyda chostau byw.

Mae angen newid diwylliannol i ystyried **technoleg gynorthwyol fel ateb** sy'n galluogi pobl i gyflawni eu canlyniadau a byw'n annibynnol ac sy'n helpu i atal/oedi ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol costus. Bydd datblygu ein **fflat SMART** yn cynorthwyo hyn drwy hyrwyddo technoleg gynorthwyol ymhellach i weithwyr proffesiynol, unigolion, a'u teuluoedd/gofalwyr. Rydym yn parhau i dderbyn ceisiadau gan bartneriaid i ymweld â fflat SMART [innovative-assistive-technology/ SMART flat](#). Hyrwyddir hyn ymhellach yn 2023/24. Mae'r Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Ataliol a'r Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl wedi rhoi cyflwyniadau ar y fflat SMART i nifer o sefydliadau. Rydym yn parhau i ychwanegu at yr offer Gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg (GAD) yn y Fflat SMART i sicrhau ein bod yn parhau i ehangu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am wasanaethau GAD.

DELWEDDAU O FFLAT SMART



Sitting Room (virtual tour screenshot)



Sitting Room (virtual tour screenshot)



Kitchen (virtual tour screenshot)



Sensory Room (virtual tour screenshot)

Cwblhawyd PODS Augusta ym mis Mawrth 2023 a bydd yn rhoi cyfle i bobl ag **anawsterau dysgu** ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth mewn amgylchedd â chymorth pwrpasol.

Rydym wedi adolygu'r defnydd o **unedau ailalluogi CARIAD** (Asesiad Cydweithredol i Leihau Ymyriadau, Derbyniadau ac Oedi wrth drosglwyddo gofal) ac rydym yn eu hail-frandio gyda'n cydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel eu bod yn cael eu huchafu i gefnogi llif ysbytai. Rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddatblygu gwelyau cam-i-lawr ar draws ein cartrefi gofal ym Mlaenau Gwent.

Mae ein **prosiect gofal Gofal Gwell / Gofal gan Unigolyn** yn parhau i hybu annibyniaeth pobl a lleihau eu dibyniaeth ar staff ar gyfer tasgau codi a chario a gofal personol. Mae'r Tîm Gofal Gwell wedi datblygu pecyn hyfforddiant a chymorth cynhwysfawr ar gyfer yr holl staff ar draws cymuned Iechyd a Gofal Cymdeithasol Blaenau Gwent sy'n darparu gofal rheng flaen.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi defnyddio offer a brynwyd fel rhan o **Grant Hyrwyddo Annibyniaeth Llywodraeth Cymru** i ddarparu'r offer diweddaraf (gwelyau / teclynnau codi / cymhorthion sefyll) i gefnogi ethos gofal un person. Cwblhawyd fflat bariatrig CARIAD ym mis Medi 2022 ac mae bellach yn rhan o gynnyg CARIAD Blaenau Gwent. Bydd y gwaith cydlynu a monitro yn cael ei hwyluso gan ein Tîm Adnoddau Cymunedol fel rhan o'r adolygiad o'r swyddogaethau ac i sicrhau bod gennym ailalluogi a **hyrwyddo annibyniaeth i'n pobl fwyaf agored i niwed**.

Mae'r tîm Gofal Gwell wedi bod yn 'ymestynnol' i'r ysbytai, yn gweithio gydag unigolion tra'n cael asesiadau ac yn gallu gweithio gydag unigolion i gyrraedd eu potensial yn yr ysbyty gan ddileu'r angen am becyn gofal ailalluogi ar ôl rhyddhau.

Yn ystod 2019/20, 2020/21 a 2021/22, **ysgwyddodd y Cyngor gostau o tua £2m y flwyddyn** (£2.5M, £2M ac £1.8M) ar leoliadau preswyl i Blant sy'n Derbyng Gofal. **Mae costau wedi bod yn lleihau o ganlyniad i niferoedd is o blant sydd angen darpariaeth breswyl**, fodd bynnag, bydd angen i'r awdurdod lleol bob amser ddarparu gofal preswyl i rai plant. Er mwyn mynd i'r afael â'r costau uchel hyn, ym mis Medi 2022, cytunwyd i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu achos busnes i ddarparu lleoliadau preswyl awdurdodau lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Bydd hyn yn:

- **Lleihau ein dibyniaeth ar ddarparwyr gofal plant preifat.**
- **Darparu gofal yn agosach i'r cartref.**
- **Dileu'r elfen elw sydd wedi'i chynnwys yn y taliadau cyfredol a godir gan ddarparwyr preifat.**

Bydd **datblygiad ein cartref plant ein hunain** yn digwydd dros ddau gam. Bydd y cam cyntaf yn cynnwys caffael eiddo addas. Mae **grant o £1.2 miliwn** wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar, ac mae'r broses y bydd angen ei dilyn yn mynd rhagddi megis gweithio gydag AGC i sicrhau bod y cartref yn bodloni'r gofynion rheoliadol, yn dilyn y prosesau 'newid defnydd' a chwblhau'r gwaith adnewyddu. Yr ail gam fydd y gwaith adnewyddu ac mae ail gais am grant i gwrdd â'r costau wedi'i gyflwyno.

Mae grŵp ymgysylltu â phreswylwyr wedi'i sefydlu dan gadeiryddiaeth Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant. Mae'r cyfarfodydd hyn yn profi'n fuddiol iawn o ran sicrhau bod trigolion lleol yn cael eu hysbysu'n llawn am ddatblygiadau ac yn gallu lleisio unrhyw farn wrth iddynt godi.

Mae SEWAS yn gweithio gyda thîm canolog y gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a rhanbarthau eraill i sicrhau bod marchnata'n cael ei dargedu i gynyddu nifer y mabwysiadwyr ar gyfer plant mwy cymhleth.

Rydym wedi gallu darparu mabwysiadwyr mewnol ar gyfer nifer o sibliogiaid mewn modd mwy amserol. Ar hyn o bryd, mae nifer y plant sy'n aros am leoliadau yn gostwng, fel y mae cyfradd yr atgyfeiriadau gan ddarparu fabwysiadwyr. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r argyfwng costau byw a bydd angen ei fonitro'n agosach wrth symud ymlaen.

Yn ystod y cyfnod, roedd y Tîm Lleoli wedi blaenoriaethu cyfarfodydd paru ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r fframwaith, ac yn darparu sesiynau goruchwyllo gofal maeth misol yn gyson lle bu angen y lefel hon o gyfranogiad, gyda gwerthusiadau blynyddol hefyd yn cael eu cynnal.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ym mhob maes ac mae pob tîm yn parhau i fuddsoddi yn ei gyfrifoldebau corfforaethol. Mae clod wedi ei dderbyn gan y tîm 14+ oherwydd y gwaith y maent wedi ymrwymo iddo yn y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Rydym bellach yn rhan o'r **Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol** ac yn gyfrifol am garfan o **Blant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches sy'n Blant sy'n Derbyn Gofal**. Ar hyn o bryd mae gennym 8 o blant wedi'u lleoli yn Lloegr yn bennaf. Mae'r tîm yn dysgu datblygu eu sgiliau wrth weithio gyda'r grŵp hwn gan fod hyn yn newydd iawn i Flaenau Gwent.



Sut Ydym Ni'n Gwneud Yr Hyn a Wnawn

Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi Eu Rolau Proffesiynol

Mae cael gweithlu medrus a brwdfrydig yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Fel rhan o hyn, mae gan y Cyngor Dîm Datblygu'r Gweithlu ar y Cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n gyfrifol am gyflwyno strategaeth hyfforddi a datblygu sy'n cefnogi cyfleoedd datblygu i staff ar bob lefel yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Darperir rhaglen ddysgu lawn ar gyfer y sector gofal cymdeithasol cyfan. Cynllunnir a chyfrifir am yr holl ofynion statudol, deddfwriaethol a chofrestru. Mae'r cynnig yn cynnwys cyfleoedd datblygu i'r gweithlu a chymorth ar gyfer gwydnwch a llesiant.

Mae'r heriau i'r gweithlu fanteisio'n llawn ar gyfleoedd dysgu yn parhau'n uchel. Mae'r amgylchedd recriwtio presennol yn cael effaith fawr ar y sector ac yn gorfodi dewisiadau llym sydd heb amheuaeth yn effeithio ar y gallu sydd ar gael i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd datblygu y tu hwnt i'r hanfodion.

Parhaodd hanner cyntaf y flwyddyn i gefnogi cofrestru gweithwyr preswyl cyn mis Hydref. Mae'r Strategaeth Gwaith Cymdeithasol yn parhau i ddarparu gweithwyr proffesiynol cymwys, ac ar gyfradd uwch na'r norm cenedlaethol.

Mae'r ffordd y mae'r gweithlu eisiau dysgu wedi newid, maent yn disgwyl dewis a hyblygrwydd. Mae mentrau amrywiol ar waith yn y sefydliad i gefnogi gwella hyder digidol a mynediad at ddysgu digidol. Mae'r awdurdod yn tanategu ei ddull gweithredu drwy gydnabod y rhwystrau sy'n bodoli ar gyfer rhannau o'r gweithlu gofal cymdeithasol, felly mae'r cynnig yn cynnwys y llwybr ystafell ddosbarth traddodiadol.

Mae gweithgareddau dosbarth yn defnyddio dyfeisiau digidol i ddarparu dysgu gofod diogel gyda chymorth hwylusydd a chyfoedion:

- **Mae'r awdurdod wedi cyd-arwain y prosiect Cymru Gyfan ar sicrhau llwyfan dysgu digidol ar lefel sefydliadol, addas i'r diben, sy'n addas ar gyfer y dyfodol, a fydd yn bodloni anghenion y sector cyfan, cymunedau a gwirfoddolwyr. Mae'r awdurdod, sy'n un o bedwar yn y cam cyntaf, yn dangos yn genedlaethol i eraill y manteision i'r gweithlu o rannu ar draws ffiniau.**
- **Defnyddir pŵer cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu a chyfathrebu â'r sector.**
- **Bydd y model darparu dysgu, dulliau dysgu cyfunol ar hyn o bryd a dewis o ddulliau digidol neu wyneb yn wyneb, yn cynnwys darpariaeth hybrid cyn bo hir – mae'r buddsoddiad gofynnol mewn technoleg wedi'i ariannu gan gais llwyddiannus i Ofal Cymdeithasol Cymru.**

Mae ymgysylltiad y gweithlu â ffyrdd newydd o ddysgu yn eithriadol ac maent yn parhau i wobrwyo'r gymuned gyda'u gwydnwch a'u penderfyniad parhaus.

Mae buddion yn parhau i gael eu gwireddu ar gyfer a chan y gweithlu trwy'r raddfa o gyfleoedd posibl oherwydd y model gwasanaeth datblygu gweithlu ar y cyd a gynhelir gennym ni mewn partneriaeth â Chaerffili.

Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn ystyriaeth allweddol o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod rhai timau yn wynebu prinder staff, fodd bynnag, cydnabyddir mai sefyllfa Cymru gyfan yw hon ac nad oes ateb syml. Mae'r adran gyfan wedi bod yn gweithio'n galed i edrych ar ffyrdd arloesol o reoli'r llwyth gwaith o fewn timau yn ogystal â datblygu strategaethau recriwtio a chadw i fynd i'r afael â phwysau ar y gweithlu. Er gwaethaf y pwysau sylweddol hyn mae'r staff presennol a darparwyr gwasanaethau wedi parhau i sicrhau bod anghenion plant ac oedolion yn cael eu diwallu, bod risgiau'n cael eu rheoli, ac yr ymdrinnir â materion diogelu.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda Datblygu Sefydliadol i sefydlu Cynllun Gweithlu Strategol i gefnogi pryderon capasiti yn y tymor byr, canolig a hir yn ogystal ag ystyried y cyfle i gydweithio ar sail ranbarthol. Mae'r gweithlu yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i nodi fel risg hollbwysig ac felly wedi'i gynnwys ar Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor.

Arweinyddiaeth Wleidyddol Leol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae strwythur y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu lefelau clir o reolaeth ac atebolrwydd. Mae gan y Cyngor fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd clir ar waith y mae pob cyfarwyddiaeth wedi ymrwymo iddo. Mae'r fframwaith hwn yn nodi sut mae adrodd a monitro yn gweithio ar draws y Cyngor i greu 'edau aur'. Cydymffurfir â'r fframwaith hwn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd hefyd â gofynion monitro ychwanegol fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod o Dîm Arweinyddiaeth Corfforaethol y Cyngor, lle mae holl Gyfarwyddwyr y Cyngor yn cyfarfod yn wythnosol i ystyried a gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol, er bod angen i rai penderfyniadau gael eu hystyried gan y Pwyllgorau Craffu ac yna eu cadarnhau gan y Cabinet neu'r Cyngor.

Yn 2022/23 roedd gan y Gyfadran un Aelod Gweithredol gyda chyfrifoldeb Portffolio am Bobl a Gwasanaethau Cymdeithasol a chraffwyd gan y Pwyllgor Craffu Pobl, gyda gwybodaeth diogelu hefyd yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor hwn. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gyda'r Gyfarwyddiaeth, yr Aelod Cabinet a Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn destun archwiliad, arolygiad ac adolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Bob chwarter mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu Benaethiaid Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn cyfarfod ag AGC i drafod cyflawniadau, perfformiad a heriau allweddol. Mae AGC hefyd yn cynnal adolygiad a gwerthusiad blynyddol o berfformiad y Gyfarwyddiaeth.

Cynnydd Archwilio ac Arolygu

Archwilio Cymru

Yn dilyn ymlaen o Archwiliad cychwynnol yn 2019 'Trefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant', cychwynnodd Archwilio Cymru, ym mis Chwefror 2022, adolygiad dilynol. Ffocws yr adolygiad oedd pennu i ba raddau yr oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r wyth argymhelliad a chynigion ar gyfer gwella a oedd heb eu gweithredu er mwyn cryfhau ei drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant, gan geisio ateb y cwestiwn a ganlyn: A all y Cyngor roi sicrwydd ei fod wedi gwneud cynnydd effeithiol ers 2019 wrth fynd i'r afael â'r argymhellion / cynigion ar gyfer gwelliannau sydd heb eu cyflawni? Roedd y canlyniad cryno cyffredinol yn gadarnhaol, gwnaeth Archwilio Cymru argymhellion ar gyfer gwella sydd wedi'u monitro fel rhan o'r broses cynllunio busnes corfforaethol.

Gwasanaethau Plant Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Yn 2018 adroddodd AGC ar eu harolygiad a gynhaliwyd ar Wasanaethau Cymdeithasol Plant ym Mlaenau Gwent. Er bod y crynodeb cyffredinol yn gadarnhaol, gwnaeth AGC argymhellion ar gyfer gwella sydd wedi'u monitro fel rhan o'r broses cynllunio busnes corfforaethol.

Gwasanaethau Maethu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Yn 2018 adroddodd AGC ar eu harolygiad o'r Gwasanaeth Maethu ym Mlaenau Gwent. Er bod y crynodeb cyffredinol yn gadarnhaol, gwnaeth AGC argymhellion ar gyfer gwella sydd wedi'u monitro fel rhan o'r broses cynllunio busnes corfforaethol.

Gweithio mewn Partneriaeth

Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi pwyslais allweddol ar weithio mewn partneriaeth gan gynnwys gofyniad statudol ar gyfer datblygu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Byrddau wedi'u sefydlu ar olion traed presennol byrddau iechyd lleol. Mae Bwrdd Gwent yn cynnwys awdurdodau lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r Aelod Cabinet ym mhob awdurdod lleol, sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol, yn eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n gorff cyngori sy'n darparu trosolwg a chyfeiriad ar gyfer meysydd gwaith integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Cyngor Blaenau Gwent yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth a chydweithio ac mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i weithio gydag ystod eang o bartneriaid lle mae cyfleoedd partneriaeth yn darparu canlyniadau gwell i drigolion lleol nag y gallai'r Cyngor ei gyflawni pe bai'n gweithio ar ei ben ei hun. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys staff, preswylwyr a busnesau. Yn ogystal, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o rannu gwybodaeth, arfer da a gwybodaeth, a all arwain at wasanaethau gwell. Mae trefniadau partneriaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys:

- **Gwasanaeth Partneriaeth a Datblygu'r Gweithlu ar y Cyd gyda Chaerffili**
- **Bwrdd Datblygu Gweithlu Gwent Fwyaf**
- **Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol**
- **Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS)**
- **Tîm Dyletswydd Argyfwng De-ddwyrain Cymru**
- **Cynllun Lleoli Oedolion De-ddwyrain Cymru**
- **Timau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhaglen Eiddilwch Gwent**
- **Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru (SEWSCB)**
- **Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan (GWASB)**
- **Bwrdd Diogelu Rhanbarthol sy'n cwmpasu'r holl bartneriaid ar draws Gwent**
- **Cynllun Rhannu Bywydau yn cael ei redeg ar ran chwe Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
- **Tîm Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Gwent**
- **Cydweithrediad Gwella De-ddwyrain Cymru -4C's (SEWIC)**
- **Tîm Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) Gwent**
- **Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent (RCC) - Cefnogi Pobl**
- **Cytundeb Gwent gyfan gyda'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth plant**

Mwy na geiriau

Fel adran rydym yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth â'n cyfrifoldebau o fewn **Mwy na Geiriau** a'r Cynnig Rhagweithiol. Rydym yn parhau i sicrhau pan fydd dinasyddion yn cysylltu â'n Hadrannau Gwasanaethau Oedolion a Phlant, eu bod yn cael cynnig y cyfle i gyfathrebu yn eu dewis iaith. Mae ein hoffer asesu o fewn ein system System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn gofyn yn benodol y cwestiwn "A oes angen i'r sgwrs / asesiad hwn gael ei gynnal yn Gymraeg?" Mae'r ffurflen wedyn yn cael ei hatodi i atgyfeiriad y person.

Mae cynllun gweithredu Mwy na Geiriau wedi symud yn ei flaen, mae yna gyswllt gyda'r hyrwyddwyr Cymraeg lleol ac mae hyrwyddo'r adnoddau a'r cyfleoedd eang sydd ar gael bellach yn safonol. Mae ein darparwyr a gomisiynwyd yn gweithio mewn partneriaeth â ni i hyrwyddo'r Gymraeg ac adlewyrchir hyn yn ein contractau a'n cytundebau lefel gwasanaeth.

Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Cyfanswm y dyraniad cyllidebol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022/23 oedd £49.9m. Mae hyn yn gynydd o £3.290m ar y flwyddyn flaenorol. Ar ddiwedd 2022/23 roedd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol orwariant o £240,608 ac mae hyn oherwydd y galw cynyddol o fewn y maes gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal.

Mae darparu adroddiadau rhagolygon ariannol rheolaidd yn unol â'r fframwaith monitro ac adrodd ar y gyllideb wedi galluogi Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud penderfyniadau gwybodus ar gyflwyno gwasanaethau.

Wrth bennu cyllideb 2023/24, cytunodd y Cyngor ar nifer o gynigion arbedion gwerth cyfanswm o £0.690m, a dyfarnodd gyllid pwysau cost ychwanegol o £0.861m. Ar gyfer 2022/23 cyflawnodd yr adran £153,000 o arbedion.

Mae'r gyllideb a'r alldro a ddyrannwyd ar gyfer 2022/23 i'w gweld yn y tabl isod:

Maes Gwasanaeth	Cyllideb	Alldro	Amrywiant (Andwyol)/Ffafriol
Gwasanaethau Plant	£14,288,800	£15,327,638	(1,038,838)
Gwasanaethau Oedolion	£29,231,440	£28,464,957	766,483
Rheoli Busnes / Cymorth Staff	£6,421,310	£6,389,563	31,747
Cyfanswm	£49,941,550	£50,182,158	(£240,608)

Darperir y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn y tabl isod ac mae'n cynnwys arbedion Prosiect Effeithlonrwydd Ariannol o £0.690m.

Cyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol 2023/24		£
1	Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol	4,247,760
2	Plant sy'n Derbyn Gofal	7,349,740
3	Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd	203,070
4	Cyfiawnder Ieuenctid	276,080
5	Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Eraill	2,523,810
7	Pobl Hŷn 65 oed a throsodd	8,011,920
8	Oedolion o dan 65 oed ag Anabledd Corfforol neu Nam ar y Synhwyrau	18,290
9	Oedolion o dan 65 oed ag Anableddau Dysgu	3,801,990
10	Oedolion o dan 65 oed ag Anghenion Iechyd Meddwl	532,560
11	Gwasanaethau Oedolion Hŷn	434,760
12	Gofal Cymunedol	20,292,770
13	Gwasanaethau Cefnogi a Chostau Rheoli	906,020
14	Ad-daliadau Corfforaethol	5,803,660
	Cyfanswm	54,402,430



Casgliad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu sut rydym wedi darparu a datblygu gwasanaethau yn unol â'r chwe safon ansawdd mewn perthynas â chanlyniadau llesiant o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae hefyd yn amlygu rhai o'r heriau rydym wedi'u hwynebu dros y 12 mis diwethaf.

Bydd 23/24 yn cyflwyno heriau hyd yn oed yn fwy oherwydd yr angen i wneud arbedion pellach i sicrhau y gall y cyngor gyflawni ei swyddogaethau o fewn y gyllideb a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Ni allwn ymdrin â'r heriau hyn ar ein pen ein hunain, felly mae'r angen i weithio fel un cyngor a chyda'n partneriaid ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol yn hynod bwysig i'n galluogi i barhau i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol. Byddwn yn ceisio ymgysylltu â'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaeth a'n staff i chwilio am syniadau ar sut y gallwn gyflawni arbedion effeithlonrwydd ac edrych ar ffyrdd y gallwn gynhyrchu incwm nawr ac yn y dyfodol.

Mae Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cipolwg ar weithgarwch gwasanaeth a gyflawnwyd drwy gydol 2022/23. Ceir manylion am ragor o wybodaeth ategol a dolenni ar y dudalen ganlynol:



Cyrchu Gwybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol

Dogfennau Defnyddiol

Adroddiadau i Bwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol - <http://democracy.blaenau-gwent.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CId=1157&Year=0&LLL=1>

Cynllun Corfforaethol y Cyngor – <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/cyngor/polisiau-strategaethau-a-chynlluniau/cynllun-corfforaethol-2018-2022/>

Monitro Cyllideb Cyngor Blaenau Gwent - <http://democracy.blaenau-gwent.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CId=1148&Year=0&LLL=1>

Gwefan Gwasanaethau Cymdeithasol – <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/iechyd-lles-a-gofal-cymdeithasol/>

Datblygu'r Gweithle - <http://socialservicesblaenau-gwent.caerphilly.gov.uk/>

Gwerthusiad Rhaglen Cydbwysio Hawliau a Chyfrifoldebau, Hydref 2022

Adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiogelu Corfforaethol

Adroddiad Diogelu Archwilio Cymru https://www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/cyngor-bwrdeistref-sirol-blaenau-gwent-dilyniant-diogelu-corfforaethol?overridden_route_name=entity.node.canonical&base_route_name=entity.node.canonical&page_manager_page=node_view&page_manager_page_variant=node_view-panels_variant-2&page_manager_page_variant_weight=0

Adroddiad Perfformiad Diogelu Ebrill 2022 – Mehefin 2022 <https://democracy.blaenau-gwent.gov.uk/documents/s12813/Appendix%201.pdf?LLL=0>

Gwefannau Defnyddiol

Gofal Cymdeithasol Cymru - <https://gofalcymdeithasol.cymru/>

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - <https://www.arolygiaethgofal.cymru/>

Data Cymru - <https://www.data.cymru/cym/>

Dewis Cymru - <https://www.dewis.cymru/>

Diogelu Gwent - <https://www.gwentsafeguarding.org.uk/cy>

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/cyngor/partneriaethau/gweithio-mewn-partneriaeth/>

Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru - www.sewsc.org.uk

Rhoi Adborth

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn croesawu adborth ar Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae eich barn yn bwysig i ni. Cysylltwch â ni os hoffech roi adborth ar y cynllun neu os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat gwahanol e.e. print bras, Braille, fersiwn sain, ac ati.

Fersiwn Gymraeg

Yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor, bydd fersiwn Gymraeg o Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gael ar wefan y Cyngor.

Ysgrifennwch atom ni:

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Anvil Court

Stryd yr Eglwys, Abertyleri, NP13 1DB

Ffoniwch ni: (01495) 355 006

E-bostiwch ni: info@blaenau-gwent.gov.uk

Ewch i'n gwefan: www.blaenau-gwent.gov.uk

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn fodlon bod y wybodaeth a roddir yn yr adroddiad blynyddol hwn yn gywir yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael ar adeg cyhoeddi.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi bod yn destun sgrinio Asesiad Effaith Integredig lle na nodwyd unrhyw effaith negyddol ar y nodweddion gwarchoddedig.

